**Date**/Dyddiad 27 Medi 2018
**Ask for**/Gofynwch am M Matthews
**Telephone**/Rhif ffôn 01446 709727
**Fax**/Ffacs
**e-mail**/e-bost MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk
**Your Ref**/Eich Cyf
**My Ref**/Cyf MM/LLANC

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Rhif ffôn: (01446) 700111
www.bromorgannwg.gov.uk

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan;

Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan;

Cyngor Ysgol a phlant Ysgol Gynradd Llancarfan

Ymgynghoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

**Cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy:**

- **Greu adeilad ysgol gynradd newydd 210 lle gydag ysgol feithrin 48 lle rhan amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws;**
- **Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd.**
- **Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4 - 11 oed i 3 -11 oed.**

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ystyried ein cynnig a hoffem ddiolch i'r rhai hynny a rannodd eu barn gyda ni. Cafodd yr holl sylwadau eu hystyried gan Gabinet y Cyngor ar 17 Medi 2018 a gytunodd i gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus statudol ar y cynnig. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar gael i'w weld a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/westernvalereconfiguration

Mae unrhyw benderfyniad gan y weithrediaeth yn destun gweithdrefnau "Galw i Mewn" fel y'u nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Craffu perthnasol graffu ar benderfyniadau'r Cabinet. Penderfynodd y Cabinet ar 17 Medi gyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant i'w ystyried.

Os hoffech dderbyn copi caled o'r adroddiad cysylltwch â Mike Matthews ar 01446 709727 neu e-bostiwch MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk Mae'r adroddiad hefyd ar gael i'w gweld yn Ysgol Gynradd Llancarfan.

Yn gywir

*L. Lewis*

Lisa Lewis
Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau